*Ths document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 4**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:
S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); D Davies (Ysgrifenyddiaeth/Cofnodydd).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd:

| | |
|---|---|
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 CHWEFROR 2019

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod ar lafar am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid a llywodraethu yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru, "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018.

6.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 5 Chwefror 2019. Mewn cyfarfod â Julie James AC, y Gweinidog, esboniwyd y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ac yna'n cael cyflwyno i Gabinet Llywodraeth Cymru i'w hystyried.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2020/21

7.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Gweithgor Cynllunio wrth ddatblygu amcanion gwella a llesiant ATA Gogledd Cymru ar gyfer 2020/21. Gofynnwyd i'r aelodau argymell cynnig drafft o ymgynghoriad yn seiliedig ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol i'w mabwysiadu gan yr ATA o fis Ebrill 2020 ymlaen.

7.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo i'r ATA, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, gynnig drafft o ymgynghoriad yn seiliedig ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol i'w mabwysiadu gan yr ATA o fis Ebrill 2020 ymlaen.**

8 STRATEGAETH YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU CYNLLUN GWELLA A LLESIANT ATAGC 2020/21

8.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynigion ar gyfer ymgynghoriad yr Awdurdod gyda'r cyhoedd a

rhanddeiliaid eraill yn 2019, fe rhan o'r broses o ddatblygu ei Gynllun Gwella a Llesiant 2020/21.

8.2 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny. Nodwyd bod y strategaeth yn ceisio ymgynghori â'r cyhoedd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019, a bydd yn tynnu sylw at waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn esbonio'r rhesymau dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yng nghyd-destun rhwymedigaethau'r Gwasanaeth o ran materion gweithredol a chorfforaethol.

8.3 Roedd yr Aelodau'n awyddus i gynnwys mwy o gynghorau tref a chynghorau cymuned yn yr ymgynghoriad eleni, os oes modd.

8.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, i'w chyflawni rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.**

9 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

9.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r hyn sydd ar gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

9.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r risgiau sydd yn y fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr gyfrinachol, a chadarnhaodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu bod wedi gweld y gofrestr ar 08 Mai 2019.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod.**

10 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS

10.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybod ar lafar am Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys.

10.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y system genedlaethol ar gyfer cysylltiadau radio a data, Airwave, sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaethau brys yn y DU, i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2019. Mae prosiect newydd, o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys, wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi, ac mae'n cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref er mwyn darparu gwasanaeth newydd.

10.3 Nododd yr aelodau fod nifer o faterion a risgiau yn gysylltiedig â'r prosiect cenedlaethol, a bod yr amserlenni ar gyfer rhoi contract newydd ar waith

wedi cael eu gohirio am lawer o amser. Cytunwyd y bydd yr aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 BREXIT

11.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybodaeth ar lafar am y camau y mae'r Gwasanaeth yn eu cymryd i baratoi ar gyfer adeg pryd bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

11.2 Nodwyd bod y Gwasanaeth, rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth, wedi gwneud paratoadau mewnol ac allanol ar gyfer y posibilrwydd y gallai'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb. Roedd hyn yn cynnwys gweithio fel rhan o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, ac er bod cyfarfodydd ar gyfer hyn wedi cael eu gohirio am y tro, gallai'r Fforwm gael ei ailgynnull petai angen.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

RHAN II

12 NEGODI CYFLOGAU'R DIFFODDWYR TÂN

12.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am sefyllfa ddiweddaraf y trafodaethau cenedlaethol am gyflogau ac amodau'r diffoddwyr tân.